Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# RHEOLAU SEFYDLOG Y BRIFYSGOL

**Adolygiadau'r Rheolau Sefydlog hyn**

| Dyddiad | Pwyllgor a rhif y cofnod | Dyddiad Cymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr |
|---|---|---|
| *Chwefror 2006* | *Pwyllgor Enwebu (cofnod 05.07)*<br>*CaDS (cofnod 05.57.01)* | *Mawrth 2006 (cofnod 05.73.01)* |
| *Mehefin 2006* | *CaDS (cofnod 05.119)* | *Gorffennaf 2006 (cofnod 05.119.4)* |
| *Medi 2008* | *CaDS (cofnod 06.04)* | *Hydref 2006 (cofnod 06.20.06)* |
| *Mehefin 2007* | *CaDS (cofnod 06.83)* | *Gorffennaf 2007 (cofnod 06.99.02)* |
| *Chwefror 2008* | *CaDS (cofnod 07.83 )* | *Ebrill 2008 (cofnod 07.50.04)* |
| *Mehefin 2008* | *CaDS (cofnod 07.46)* | *Gorffennaf 2008 (cofnod 08.23.04)* |
| *Medi 2008* | *CaDS (cofnod 08.16)* | *Hydref 2008 (cofnod 08.51.04)* |
| *Mehefin 2009* | *CaDS (cofnod 08.88)* | *Gorffennaf 2009 (08.130.04)* |
| *Chwefror 2010* | *CaDS (cofnod 09.46)* | *Gorffennaf 2010 (cofnod 09.110.02)* |
| *Mehefin 2010* | *Pwyllgor Enwebu (cofnod 09.23)/CADS (cofnod 09.82)* | *Gorffennaf 2010 (cofnod 09.110.02)* |
| *Gorffennaf 2011* | *CaDS (cofnod 10.86)* | *Gorffennaf 2011 (cofnod 10.105.02)* |
| *Mehefin 2012* | *CaDS (cofnod 11.78)* | *Gorffenaf 2012 (cofnod 11.98.02)* |
| *Mehefin 2013* | *CaDS (cofnod 12.88)* | *Gorffennaf 2013 (cofnond 12.95.01)* |
| *Mehefin 2014* | *CaDS (cofnod 13.94)* | - |
| *Mehefin 2015* | *CaDS (cofnod 14.96)* | *Gorffennaf 2015 (cofnod 14.126.01)* |
| *Mehefin 2016* | *CaDS (cofnod 15.90)* | *Gorffennaf 2016 (cofnod 15.96.02)* |
| *Mehefin 2017* | *CaDS (cofnod 16.87)* | *Gorffennaf 2017 (cofnod 16.85.02)* |
| *Mehefin 2018* | *Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu (cofnod 17.36)* | *Gorffennaf 2018 (cofnod 17.112.05)* |
| *Mehefin 2019* | *Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu (cofnod 18.34)* | *Gorffennaf 2019 (cofnod 18.118.03)* |
| *Mehefin 2020* | *Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu (cofnod 19.24)* | *Gorffennaf 2020 cofnod 19.105.03)* |
| *Mefehin 2024* | *Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu (cofnod 23.17)* | *Gorffennaf 2024 (cofnod 23.134)* |

# Cynnwys:

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | Grym a chymhwysiad y rheolau sefydlog hyn | 1 |
| **2** | Diffiniadau | 1 |
| **3** | Maint a chyfansoddiad Bwrdd y Llywodraethwyr | 2 |
| **4** | Tymor swydd ac ailbenodi | 3 |
| **5** | Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr | 3 |
| **6** | Gweithredu gan y Cadeirydd | 4 |
| **7** | Presenoldeb | 4 |
| **8** | Aelodaeth pwyllgorau | 5 |
| **9** | Sefydlu is-bwyllgorau | 6 |
| **10** | Cworwm | 6 |
| **11** | Cyfarfodydd a hysbysiad o gyfarfodydd | 6 |
| **12** | Cyfarfodydd cyffredin, anghyffredin ac arbennig | 7 |
| **13** | Eitemau agenda | 7 |
| **14** | Trefn y gweithrediadau | 7 |
| **15** | Gwaredu cofnodion | 8 |
| **16** | Diprwyaethau | 8 |
| **17** | Cynigion | 8 |
| **18** | Tynnu cynigion yn ôl neu eu newid | 9 |
| **19** | Diwygio cynigion | 9 |
| **20** | Cynigion a allai gael eu symud heb rybudd | 10 |
| **21** | Diddymu penderfyniad blaenorol | 11 |
| **22** | Cofnodion pwyllgorau | 11 |
| **23** | Rheolau trafod | 11 |
| **24** | Cyfarfodydd a ohirir ar ôl cychwyn | 13 |
| **25** | Atal rheolau sefydlog | 13 |
| **26** | Ymddygiad afreolus | 13 |
| **27** | Atal eisteddiad | 14 |
| **28** | Buddiannau aelodau pwyllgor mewn cytundebau a materion eraill | 14 |
| **29** | Dirpwyo dyletswyddau a phwerau a swyddogaethau | 14 |
| **30** | Cyfrifoldebau ar y cyd | 14 |
| **31** | Lwfans y llywodraethwyr | 14 |
| **32** | Dirprwy Glerc | 15 |
| **33** | Adolygiad o’r Rheolau Sefydlog | 15 |
| | ***Atodiadau*** | |
| | *Atodiad 1 Trefnau ethol ar gyfer aelodau staff Bwrdd y Llywodraethwyr* | *1-6* |
| | *Atodiad 2 Trefnau ethol ar gyfer aelodau staff y Bwrdd Academaidd* | *7-10* |

**1 Grym a chymwysiad y Rheolau Sefydlog**

1.1 Mae'r Rheolau Sefydlog hyn yn atebol i'r Offerynnau Llywodraethu.

1.2 Bydd y Rheolau Sefydlog yn llywodraethu ymddygiad Bwrdd y Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd, eu Pwyllgorau, a phob Pwyllgor ffurfiol mewnol arall.

1.3 Os nad yw'r cyd-destun yn nodi'n wahanol, bydd geiriau, cyfeiriadau a mynegiadau eraill a ddefnyddir yn y Rheolau Sefydlog hyn yn golygu'r un fath ag y maent yn yr Offerynnau Llywodraethu.

**2 Diffiniadau**

Mae pwyllgor yn gynulliad bwriadol, sut bynnag y'i gelwir, wedi'i sefydlu gan, neu yn unol â, phwerau a roddir yn yr Offerynnau Llywodraethu, gyda chyfansoddiad, cylch gorchwyl, dyletswyddau a phwerau rhagosodedig.

2.1 Bydd cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu dan Gyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr.

2.2 Mae pwyllgor isradd yn is-bwyllgor.

2.3 Mae pwyllgor sy'n bodoli'n barhaol yn 'Bwyllgor Sefydlog'; Pwyllgor sy'n bodoli dros dro (a sefydlir fel arfer i ystyried cwestiwn neu gwestiynau penodol ac sydd ar ôl hynny yn rhoi'r gorau i fodoli) yn bwyllgor 'ad hoc' neu'n *grŵp 'gorchwyl a gorffen'. Ble mae is-bwyllgor yn galw am sefydlu 'pwyllgor sefydlog', mae'n rhaid gofyn am ganiatâd Bwrdd y Llywodraethwyrneu'rBwrdd Academaidd fel y bo'n briodol.*

2.4 Mae 'Panel' neu 'Weithgor' yn gynulliad bwriadol, a sefydlwyd gyda chyfansoddiad llai caeth i ystyried ac adrodd ar gwestiwn penodol, a dwyn adroddiadau neu argymhellion ymlaen. Os na ragamodir yn wahanol, bydd Paneli neu Weithgorau o'r fath yn dilyn y drefn sy'n ymddangos fwyaf addas i'w hamcan ac ni fyddant yn atebol i'r Rheolau Sefydlog hyn.

2.5 Mae "Deiliaid Uwch Swydd" yn golygu'r Is-Ganghellor, y Clerc a deiliaid uwch swydd eraill y gallai Bwrdd y Llywodraethwyr eu pennu a bydd "deiliaid uwch swydd" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny.

2.6 Mae "uwch staff' yn staff academaidd neu wasanaethau proffesiynol nad ydynt wedi cael eu pennu gan Fwrdd y Llywodraethwyr i fod yn Ddeiliaid Uwch Swydd. Pennir eu penodiadau, eu cyflog a'u disgyblaeth gan yr Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr ar gyngor yr Deiliaid Uwch Swydd priodol.

2.7 Diffinnir "Athro/Athrawes" fel arfer fel aelod o Staff y Brifysgol, sy'n ymwneud fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth ym Mhrifysgol Wrecsam ag addysgu myfyrwyr am fwy na 50% o'u hamser ac yn dal swydd Darlithydd, Uwch Ddarlithydd, Darllenydd neu Athro Coleg. Ble bo gan Athrawon Coleg gytundebau Deiliaid Uwch Swydd, nid ydynt yn gynwysedig yn y diffiniad yma. Nid yw "Athrawon" sydd yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd yn gymwys i sefyll fel ymgeiswyr ar gyfer "aelod sy'n athro/athrawes" cyfetholedig o'r Bwrdd, ond a allai, ar adeg priodol, geisio cael eu henwebu fel enwebai y Bwrdd Academaidd sydd yn "athro/athrawes".

2.8 Yn achos y rhywrai a enwebir i fod yn aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr gan y Bwrdd Academaidd o blith ei aelodau, diffinnir "Athro/Athrawes" fel unigolyn sy'n ymwneud fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth ym Mhrifysgol Wrecsam ag addysgu myfyrwyr am fwy na 50% o'u hamser ac/neu sy'n arweinydd academaidd sy'n ymwneud â datblygu a gwella dysgu ac addysgu.

2.9 Diffinnir “staff Gwasanaethau Proffesiynol” fel staff y Brifysgol nad ydynt wedi eu cyflogi ar gytundeb staff academaidd a/neu strwythur cyflog staff academaidd.

**3 Maint a Chyfansoddiad Bwrdd y Llywodraethwyr**

3.1 Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cynnwys dim llai na 12 a dim mwy na 24 o aelodau

3.2 O’r rhain, dylai mwyafrif yr aelodau fod yn aelodau Annibynnol (yn ôl yr Offeryn***3) 2.*** ).[1]

3.3 Bydd un aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr sy’n athro/athrawes yn y Brifysgol wedi’i enwebu gan y Bwrdd Academaidd. Dylai’r penodiad yma gael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr a’i benodi yn unol â Rheol Sefydlog 2.8.

3.4 Bydd yr Is-Ganghellor yn aelod *ex officio* o Fwrdd y Llywodraethwyr.

3.4.1 Bydd Undeb y Myfyrwyr yn gyfrifol am enwebu hyd at ddau fyfyriwr lywodraethwr o blith swyddogion etholedig yr Urdd.

3.4 Bydd Is-Ganghellor y Brifysgol a Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelodau *ex officio* o Fwrdd y Llywodraethwyr.

3.4.1 Bydd Undeb y Myfyrwyr yn gyfrifol am enwebu hyd at ddau fyfyriwr lywodraethwr o blith swyddogion etholedig yr Undeb, sef Llywydd ac Is-Lywydd yr Undeb fel arfer

3.5 O bedwar aelod ar hugain Bwrdd y Llywodraethwyr, bydd yna o leiaf tri aelod cyfetholedig. O’r rhain:-

3.5.1 Bydd gan un brofiad ym maes darpariaeth addysg.

3.5.2 Bydd un yn “athro/athrawes” yn y Brifysgol fel y diffinnir yn Rh.S. 2.7. Dylai’r unigolyn yma gael ei enwebu gan staff addysgu’r Brifysgol a dylai’r penodiad gael ei gyflwyno ar gyfer ei gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

3.5.3 Bydd un yn aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol fel y diffinnir yn Rh.S. 2.9. Dylai’r unigolyn yma gael ei enwebu gan staff Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol a dylai’r penodiad gael ei gyflwyno ar gyfer ei gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

*Noder: Bydd etholiadau ar gyfer aelodau staff Bwrdd y Llywodraethwyr a’r Bwrdd Academaidd yn dilyn y trefnau a restrir yn yr atodiadau i’r Rheolau Sefydlog hyn.*

3.6 ***Diddymwyd ym mis Hydref 2006***

3.7 Gallai Bwrdd y Llywodraethwyr ddiwygio trwy benderfyniad diweddarach faint a chyfansoddiad Bwrdd y Llywodraethwyr ar yr amod fod penderfyniad o’r fath yn unol ag Erthygl Llywodraethu Prifysgol Wrecsam.

3.7 Bydd y Bwrdd Academaidd yn cael ei gyfansoddi yn unol â’r Offeryn a’r Offerynnau Llywodraethu.

3.8 Gallai’r Bwrdd Academaidd ddiwygio trwy benderfyniad diweddarach faint a chyfansoddiad Bwrdd y Llywodraethwyr ar yr amod fod penderfyniad o’r fath yn unol ag Offeryn Llywodraethu Prifysgol Wrecsam ac wedi’i gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

[1] Instrument and Articles specify 13 Independent members and up to 9 co-opted members in addition to members who are the Vice Chancellorand Chief Executive, staff and the Student members.

## 4 Tymor Swydd ac Ailbenodi i Fwrdd y Llywodraethwyr

4.1 Oni bai y penderfynir fel arall gan y Bwrdd ar adeg y penodiad dechreuol, bydd pob llywodraethwr annibynnol, cyfetholedig neu 'athro' lywodraethwr yn cael ei benodi am gyfnod swydd pedair blynedd.

4.2 Pan fydd cyfnod swydd yn darfod bydd pob aelod yn gymwys i'w ailbenodi, ond y disgwyliad arferol yw na fydd aelodau'n cael eu hailbenodi am fwy nag un cyfnod swydd arall yn dilyn y cyfnod swydd pedair blynedd dechreuol h.y. uchafswm o wyth mlynedd i gyd. Lle penderfynir fod gan aelod sgiliau neu arbenigedd eithriadol, gall y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu argymell i'r Bwrdd y dylid adnewyddu aelodaeth am flwyddyn ychwanegol hyd at uchafswm o naw mlynedd. Lle bo aelod yn cael ei ethol fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd bydd eu cyfnod yn y swydd yn dechrau o'r newydd o ddyddiad eu hethol. Fodd bynnag, y cyfnod uchafswm ar y Bwrdd i aelod a etholir yn Gadeirydd neu Is-gadeirydd yn ddiweddarach fydd naw mlynedd, y gellid ei ymestyn i 10 mlynedd dan amgylchiadau eithriadol.

4.3 Wrth ystyried penodi ac ailbenodi aelodau, dylai'r Pwyllgor Enwebu gymryd y canlynol i ystyriaeth:

- Cydbwysedd yr aelodaeth
- Anghenion y sefydliad
- Yr angen am barhad
- Yr angen am waed newydd

4.4 Gallai aelodau wedi ymddeol gael eu hystyried ar gyfer eu hailbenodi i'r Bwrdd yn unol â 4.3 ac ar yr amod fod o leiaf chwe blynedd wedi mynd heibio ers i'w haelodaeth ddod i ben.

4.5 Mae'r Offeryn Llywodraethu yn rhagamodi, os ar unrhyw adeg y bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn fodlon bod unrhyw aelod o'r Bwrdd yn methu neu'n anaddas i gyflawni swyddogaethau aelod, y gallai Bwrdd y Llywodraethwyr hysbysu'r aelod hwnnw neu honno yn ysgrifenedig eu bod yn cael eu dileu o'r swydd, a chyda hynny bydd y swydd yn dod yn wag.

**4.5.1** Lle bo amgylchiadau Rheol Sefydlog 4.5 yn galw am weithredu brys, yn unol â Rh.S. 4.5, gallai penodiad aelod o'r Bwrdd sy'n ymddwyn mewn modd y mae'r Bwrdd yn cytuno sydd yn anweddus a/neu sy'n ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar neu a allai ddwyn anfri ar Fwrdd y Brifysgol, gael ei derfynu gan benderfyniad y Bwrdd. Mae'n rhaid i gynnig i wneud penderfyniad o'r fath gael ei gynnig yn ffurfiol gan y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu.

**4.5.2** Ble bo amgylchiadau Rh.S.4.5 yn galw am weithredu brys, gellid gwneud cynnig ar y cyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd i wahardd aelod dros dro tra'n disgwyl ystyriaeth y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu. Os mai'r aelod dan sylw yw'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yna gallai'r cynnig gael ei wneud ar y cyd gan Gadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Bydd gan yr aelod dan sylw yr hawl i fynychu cyfarfod y Bwrdd ble bydd y cynnig yn cael ei roi ger bron.

## 5 Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr.

5.1 Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn penodi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd o blith eu nifer a byddant yn y swydd am gyfnod a benderfynir gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

5.2 Fel arfer disgwylir, wrth ethol i ddechrau, er budd parhad, i'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd barhau yn y swydd honno am leiafswm o bedair blynedd, ond na fydd y cyfnod hiraf yn y naill swydd na'r llall yn fwy nag wyth mlynedd, ac eithrio unrhyw gyfnod(au) o

lai na blwyddyn pan ddaliwyd y swydd oherwydd marwolaeth neu anallu'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.

5.3 Ar ôl rhoi'r gorau i ddal swydd Cadeirydd, dylai'r aelod hwnnw fel arfer sefyll i lawr fel aelod o'r Bwrdd. Fodd bynnag, gallai fod yna amgylchiadau arbennig ble gallai'r Bwrdd benderfynu fod Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yn cael ei benodi am gyfnod dros dro o ddim mwy na 12 mis fel arfer, ac ar ôl y cyfnod hwnnw y gallai'r aelod ailafael yn ei swydd ar y Bwrdd yr oedd ganddynt cyn y penodiad dro dro. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys:

5.3.1 Ble ymgymerir â chais am Gadeirydd neu Is-Gadeirydd oherwydd:

- Ymddiswyddiad Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Bwrdd
- Marwolaeth Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Bwrdd
- Anallu Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Bwrdd yn sgil salwch neu resymau eraill.

5.3.2 Pe bai'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd, a benodwyd gan y Bwrdd am gyfnod dros dro, yn cael eu penodi wedyn fel Cadeirydd neu Is-Gadeirydd parhaol, bydd tymor eu swydd yn ailgychwyn ac yn eithrio'r cyfnod o lai na 12 mis pan ddaliwyd y swydd am unrhyw un o'r rhesymau a amlinellir yn 5.3.1 a 5.3.2. ac yn unol â Rheol Sefydlog 5.2.

Yn achos Cadeirydd neu Is-Gadeirydd, a benodwyd gan y Bwrdd am gyfnod dros dro, yn cael eu penodi wedyn fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd parhaol, bydd tymor eu swydd yn ailgylchwyn ac yn eithrio unrhyw gyfnod o hyd at 12 mis pan ddaliwyd y swydd am unrhyw un o'r rheswymau a amlinellwyd yn 5.3.1 ac yn unol â Rheol Sefydlog 5.2.

## 6 Gweithredu gan y Cadeirydd

6.1 O ran unrhyw fater y bydd yn rhaid i Fwrdd y Llywodraethwyr benderfynu arno, mae gan y Cadeirydd, neu yn ei absenoldeb yr Is-Gadeirydd, yr awdurdod, mewn ymgynghoriaeth â naill ai'r Cadeirydd Pwyllgor perthnasol, neu Is-Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, i weithredu ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr rhwng cyfarfodydd arferol, ac eithrio pan elwir Pwyllgor Arbennig o'r Bwrdd yn unol ag Erthygl 7(3).

6.2 Dylai gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig gynnwys:

6.2.1 Materion arferol na fyddai wedi teilyngu gael eu trafod mewn cyfarfod bwrdd llywodraethol; neu

6.2.2 Materion a ystyrir yn rhai rhy bwysig i ddisgwyl tan gyfarfod nesaf y corff llywodraethol a ble nad oes digon o amser i alw cyfarfod arbennig.

6.3 Ceir adroddiad am unrhyw weithrediad a wnaed gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr (neu yn ei absenoldeb Is-Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr) yng nghyfarfod nesaf Bwrdd y Llywodraethwyr.

## 7 Presenoldeb

7.1 Ble na all aelodau fynychu cyfarfod, dylid rhoi gymaint o rybudd â phosibl i'r Clerc fel y gellir gwneud nodyn o ymddiheuriadau dros absenoldeb yn y cyfarfod ac fel y gellir tynnu sylw'r Clerc at unrhyw broblemau posibl ynglŷn â chworwm mewn cyfarfod.

7.2 Bydd y Clerc yn paratoi crynodeb o bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau o ran pob blwyddyn academaidd, a bydd hwn ar gael i unrhyw aelod ar gais.

7.3 Gallai swyddogion y Brifysgol fynychu cyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Academaidd a'i Bwyllgorau trwy wahoddiad y Cadeirydd.

7.4 Gallai aelodau'r Bwrdd Academaidd a'i bwyllgorau sefydlog, ac eithrio aelodau *ex officio*, cyfetholedig neu etholedig, gael yr hawl i enwebu aelodau amgen wedi'u henwi i fynychu yn eu habsenoldeb. Mae'n rhaid hysbysu'r Clerc am hyn cyn y cyfarfod. Bydd gan aelodau amgen cymeradwyedig hawliau siarad a phleidleisio llawn.

## 8 Aelodaeth o Bwyllgorau

8.1 Gyda'r eithriad na fydd Cadeirydd y Bwrdd a'r Is-ganghellor yn aelodau'r Pwyllgor Archwilio, ac na fydd yr Is-ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, bydd Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Is-Ganghellor yn aelodau *ex officio* o holl Bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr a phob un o Gyd-bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Academaidd. Yn unol ag Erthygl 4 (1), yr Is-Ganghellor fydd Cadeirydd y Bwrdd Academaidd a bydd yn aelod *ex officio* o holl Bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd.

Os na ragamodir yn wahanol yn benodol, bydd Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Is-Ganghellor yn aelodau *ex officio* o holl Bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr a phob un o Gyd-bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Academaidd. Yn unol ag Erthygl 4 (1), yr Is-Ganghellor fydd Cadeirydd y Bwrdd Academaidd a bydd yn aelod *ex officio* o holl Bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd.

8.2 Ni fydd aelodau'r Pwyllgorau yn ddirprwyon unrhyw gorff, adran, person na buddiant.

8.2.1 Bydd 'Aelod Sefydlog' o Bwyllgor yn un a benodwyd neu a etholwyd iddo yn unol ag Erthyglau, Ordinhadau, Rheoliadau neu Benderfyniadau fel y bo'n gymwys.

8.2.2 Bydd 'Aelod *Ex officio*' yn un sy'n aelod yn rhinwedd swydd neu benodiad.

8.2.3 Bydd 'Aelod Cyfetholedig' yn un a wahoddwyd gan y Pwyllgor ei hun i wasanaethu o dan ei bwerau cyfethol, ac yn aelod llawn o Bwyllgor gyda hawliau siarad a phleidleisio.

8.2.4 Bydd 'Sylwedydd' yn berson a wahoddir gan y Pwyllgor i fynychu ei Gyfarfodydd: ni fydd sylwedyddion yn aelodau o'r Pwyllgor, ac ni fydd ganddynt hawl i siarad (ac eithrio ar wahoddiad y Pwyllgor) na phleidleisio, a gellir gofyn iddynt adael y Cyfarfod ar unrhyw adeg gan y Cadeirydd neu gan benderfyniad syml yPwyllgor.

8.2.5 Bydd Aelodau Myfyrwyr Bwrdd y Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a'u pwyllgorauyn atebol i Reoliadau sy'n llywodraethu materion neilltuedig.

8.3 Penodir aelodau o Bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr, gan gynnwys eu Cadeiryddion, gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

8.3.1 Dylai aelodaeth Pwyllgorau gael ei hadolygu yng nghyfarfod olaf pob blwyddyn academai gyda'r penodiad yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol.

8.4 Bydd Aelodau *ex officio* yn dal eu swyddi am ba hyd bynnag y byddant yn parhau i ddal y swydd(i) yn rhinwedd yr hyn y byddant yn aelodau. Bydd tymor swydd Aelod o Bwyllgor ad hoc neu Weithgor neu Banel yn para am gyfnod y corff hwnnw.

8.5 Gall unrhyw Aelod a benodwyd ymddiswyddo ar unrhyw adeg: dylai ymddiswyddiad fod yn ysgrifenedig ac yn dod i rym unwaith iddo gael ei dderbyn gan Glerc y Pwyllgor.

8.6 Bydd swyddi dros dro ymhlith Aelodau'r Pwyllgorau yn cael eu llenwi cyn gynted ag y bo modd gan y dulliau tebyg ar gyfer penodi'r Aelod y mae ei le wedi dod yn wag, ar yr

amod na fydd yna ddyletswydd i lenwi'r swydd dros dro os bydd yn digwydd mor fuan cyn i dymor y swydd ddod i ben nes, ym marn y Pwyllgor, y byddai'n fwy cyfleus i adael i'r swydd wag barhau nes i dymor y swydd dan sylw ddod i ben. Bydd y person a benodir i lenwi'r swydd yn dal y swydd am dymor annarfodedig swydd yr aelod y cymerwyd ei le.

8.7 Os na waherddir hynny wrth iddo gael ei sefydlu, bydd gan bob Pwyllgor y grym i benodi Aelodau Cyfetholedig. Fodd bynnag, ni fydd cyfanswm yr Aelodau Cyfetholedig byth yn fwy na dau ac eithrio yn achos y Pwyllgor Archwilio ble caniateir hyd at dri aelod cyfetholedig.

8.8 Bydd tymor swydd Aelodau Cyfetholedig yn cael ei benderfynu gan y Pwyllgor, ond ni fydd mewn unrhyw achos yn hirach na thymor swydd Aelodau Sefydlog yr un Pwyllgor.

8.9 Bydd gan bob Pwyllgor y grym i wahodd pobl nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor hwnnw i fynychu ei gyfarfodydd fel Sylwedyddion neu Swyddogion Cofnodi.

**9 Sefydlu Is-Bwyllgorau**

9.1 Os na ragamodir yn wahanol yn benodol, bydd gan bob Pwyllgor (gan gynnwys Is-Bwyllgor) y grym i sefydlu Is-Bwyllgorau, ac fe allant ddirprwyo i'r Is-Bwyllgorau hynny unrhyw bwerau neu swyddogaethau y maent yn gymwys i'w cyflawni eu hunain. Bydd gan bob Is-Bwyllgor yr awdurdod i wneud sylwadau ac argymhellion i'w Prif Bwyllgorau o ran eu cyfansoddiadau eu hunain a newidiadau parthed hynny. Ble y bo'n gymwys, fe all Cyfansoddiad Pwyllgor ddynodi y dylai weithredu yn unol ag Erthyglau, Ordinhadau, Rheoliadau neu Benderfyniadau penodol yn ôl y digwydd.

9.2 Gallai Pwyllgor, trwy Benderfyniad o bryd i'w gilydd, ddiwygio Cyfansoddiad unrhyw un o'i Is-Bwyllgorau, ar yr amod fod rhybudd digonol o newidiadau o'r fath yn cael ei roi i'r Is-Bwyllgor ac na fydd newidiadau o'r fath yn cael effaith ôl-weithredol mewn unrhyw achos.

**10 Cworwm**

10.1 Os na nodir yn wahanol, bydd yna gworwm o bwyllgorau pan fydd traean, neu'r cyfanrif uchaf agosaf, o aelodaeth union pob Pwyllgor yn bresennol.

10.2 Yn absenoldeb cworwm, fe all yPwyllgor fynd ati i ystyried eitemau ar yr agenda, gohirio ar ôl cychwyn a pharhau yn ddi-gworwm, ond bydd yn rhaid i bob penderfyniad gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf â chworwm neu ei gadarnhau trwy ohebiaeth.

10.3 Os, yn ystod Cyfarfod, y bydd Pwyllgor yn dod yn ddi-gworwm, a bod Aelod yn tynnu sylw'r Cadeirydd at hyn, bydd Rheol Sefydlog 10.2 yn gymwys o'r foment honno.

**11 Cyfarfodydd a Hysbysiad o Gyfarfodydd**

11.1 Cynhelir o leiaf pedwar cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr ym mhob Blwyddyn Academaidd a chan hynny dosberthir hysbysiadau yn unol â'r Erthyglau. Trefnir cyfarfodydd eraill y Bwrdd a allai fod yn angenrheidiol gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd.

11.2 Bydd Pwyllgorau eraill yn cyfarfod yn ôl penderfyniad y cyrff sy'n eu sefydlu neu gan y Pwyllgorau eu hunain, neu fel sy'n ofynnol gan y Cadeirydd.

11.3 Yn amodol ar yr Erthyglau, ystyrir dosbarthu'r Calendr Cyfarfodydd cyhoeddedig ar gyfer y flwyddyn briodol i'r Aelodau fel hysbysiad digonol o gyfarfodydd ar gyfer y Pwyllgorau hynny.

## 12 Cyfarfodydd Cyffredin, Anghyffredin ac Arbennig

12.1 Bydd cyfarfodydd Pwyllgorau a drefnwyd yn unol â'r Erthyglau neu'r isadrannau blaenorol yn cael eu galw yn Gyfarfodydd Cyffredin, a gynhelir yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

12.2 Bydd cyfarfodydd ychwanegol Pwyllgorau a drefnir fel rhai ychwanegol i'r Cyfarfodydd Cyffredin yn cael eu galw yn Gyfarfodydd Anghyffredin, ac fe'u cynhelir yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

12.3 Bydd cyfarfodydd pwyllgorau neu gyfarfodydd a drefnwyd yn arbennig i ddelio gydag eitemau materion penodol a chyfyngedig yn unig yn cael eu dynodi yn Gyfarfodydd Arbennig. Bydd cofnodion ac adroddiadau Cyfarfodydd Arbennig yn cael eu cyflwyno i Gyfarfod Cyffredin neu Anghyffredin nesaf y Pwyllgor.

## 13 Eitemau Agenda

13.1 Gall unrhyw aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr wneud cais ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr i eitem gael ei chynnwys ar Agenda cyfarfod arfaethedig y Bwrdd. Yn yr un modd, gall unrhyw aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr sydd yn aelod o Bwyllgor y Bwrdd wneud cais ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr i eitem gael ei chynnwys ar Agenda cyfarfod arfaethedig y Bwrdd.

13.2 Fel arfer mae'n rhaid i bob mater i'w gynnwys ar yr Agenda gael ei dderbyn o leiaf pedwar diwrnod ar ddeg clir cyn dyddiad trefnedig y cyfarfod.

## 14 Trefn y Gweithrediadau

Ac eithrio pan fo Pwyllgor, ar sail brys, neu oherwydd rheswm da arall, yn amrywio trefn y gweithrediadau, fe fydd:

14.1 yn absenoldeb y Cadeirydd (a'r Is-Gadeirydd, ble penodwyd un) yn dewis aelod o'r Pwyllgor i gadeirio'r cyfarfod;

14.2 yn delio gydag unrhyw fusnes sy'n ofynnol gan yr Erthyglau, Ordinhad neu Reoliad cyn unrhyw fusnes arall;

14.3 yn cymeradwyo fel cofnod cywir (neu fel arall yn delio gyda) Cofnodion Cyfarfod blaenorol y Pwyllgor;

14.4 yn delio gyda materion sy'n codi o Gofnodion y Cyfarfod blaenorol os nad ydyw ar yr Agenda fel arall;

14.5 yn gwaredu unrhyw fusnes (os o gwbl) sy'n weddill ar ôl y Cyfarfod blaenorol;

14.6 yn llenwi swyddi (os o gwbl) ar Bwyllgorau;

14.7 yn derbyn ac yn delio'n briodol gydag unrhyw faterion a gynigir gan y Cadeirydd;

14.8 Yn derbyn, ystyried ac yn delio'n briodol gyda Chofnodion, Adroddiadau ayb Is-Bwyllgorau a Swyddogion; ar yr amod, os yw copi o'r Cofnodion neu Adroddiadau hynny wedi cael eu dosbarthu i bob Aelod o'r Prif Bwyllgor yn ddim hwyrach na'r dyddiad a gymeradwywyd ar gyfer dosbarthu dogfennau i'r Cyfarfod, y byddant yn cael eu derbyn fel y maent;

14.9 yn ystyried hysbysiadau o gynigion yn y drefn y cawsant eu derbyn.

## 15 Gwaredu Cofnodion ac Adroddiadau

15.1 Cofnodion y Cyfarfod blaenorol

15.1.1 Cyn gynted ag y bydd y Cofnodion wedi cael eu darllen, neu'n cael eu derbyn fel y maent o dan y Rheolau Sefydlog, bydd y Cadeirydd yn gofyn "i Gofnodion y (Pwyllgor) a gynhaliwyd ar (dyddiad) gael eu llofnodi fel cofnod cywir".

15.1.2 Ni cheir unrhyw gynnig na thrafodaethau am y Cofnodion, ac eithrio ynghylch eu cywirdeb. Os na chodir cwestiwn o gywirdeb, neu pe'i codir, cyn gynted ag y'i gwaredir, bydd y Cadeirydd yn llofnodi'r Cofnodion.

15.1.3 Cyn gynted ag y bydd y Cofnodion wedi cael eu llofnodi, bydd materion sy'n codi o'r Cofnodion nad ydynt fel arall ar yr Agenda yn cael eu trin yn olynol, ac eithrio'r materion hynny a restrwyd yn yr Agenda fel "materion yn codi" yr ymdrinnir â hwy yn y lle cyntaf. Yn achos "materion yn codi" na restrwyd ar yr Agenda neu sy'n parhau fel busnes newydd, caniateir cwestiynau neu adroddiadau'n unig: ni chaniateir unrhyw drafodaeth bellach.

15.1.4 Cyn gynted ag y gwaredir pob mater sy'n codi, ni all unrhyw Aelod godi unrhyw un o'r materion hynny eto ac eithrio trwy gynnig yn unol â Rheol Sefydlog 17, ar wahân i pan allai materion o'r fath godi yn nes ymlaen yn y Cyfarfod, o Gofnodion ac Adroddiadau Is-Bwyllgorau neu Swyddogion.

15.2 Cofnodion ac Adroddiadau'r Bwrdd Academaidd

15.2.1 O ran unrhyw fater y mae gan y Bwrdd Academaidd y grym i'w reoli neu benderfynu arno yn dibynnu ar gymeradwyaeth Bwrdd y Llywodraethwyr, pan fo'r Rheoliad neu benderfyniad yn cael ei roi ger bron Bwrdd y Llywodraethwyr, fe all: (1) gymeradwyo'r Rheoliad neu'r penderfyniad; neu (2) wrthod y Rheoliad neu'r penderfyniad; neu (3) gyfeirio'r Rheoliad neu'r penderfyniad yn ôl, gyda neu heb awgrymu ei ddiwygio.

15.2.2 Gallai'r Bwrdd Academaidd gymeradwyo, gyda neu heb welliant, gyfeirio'n ôl neu wrthod unrhyw argymhelliad a wneir iddo.

**16 Dirprwyaethau**

16.1 Yn y lle cyntaf, bydd gofyn i ddirprwyaethau sy'n dymuno cael eu derbyn gan Bwyllgor gyflwyno memorandwm ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor a fydd yn cael ei roi ger bron y Pwyllgor dan sylw. Yna, os yw'r Pwyllgor o'r farn fod y mater yn un y dylid derbyn Dirprwyaeth yn ei gylch, gwahoddir y Ddirprwyaeth i fynychu, ond nid fel arall. Gall Pwyllgor gyfeirio'r memorandwm i Is-Bwyllgor am ystyriaeth ac adroddiad manwl, cyn i benderfyniad o'r fath gael ei wneud, neu fe all ofyn i Is-Bwyllgor dderbyn y Ddirprwyaeth a gweithredu ar ei rhan.

16.2 Bydd penderfyniad y Pwyllgor sydd wedi derbyn y Ddirprwyaeth yn cael ei gyfleu i'r Ddirprwyaeth yn ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor.

**17 Cynigion**

17.1 Mae Cynnig yn gynnig a wneir mewn Pwyllgor, yn unol â'r Rheolau Sefydlog hyn.

17.2 Bydd Cynnig yn cael ei wneud gan Aelod o'r Pwyllgor ac yn cael ei eilio gan Aelod arall o'r pwyllgor. Bydd unrhyw Gynnig heb ei eilio yn pallu ar unwaith, ni fydd yn cael ei drafod ymhellach, ac ni fydd yn cael ei wneud eto yn y cyfarfod hwnnw.

17.3 Mae'n rhaid i Gynnig gael ei hysbysu.

17.4 Bydd pob hysbysiad o Gynnig yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan un Aelod o'r Pwyllgor fel Cynigydd a chan Aelod arall fel Eilydd. Bydd hysbysiad o gynnig yn cael ei roi i Glerc y Pwyllgor mewn digon o amser i gael ei restru ar yr Agenda a'i ddosbarthu gyda'r papurau sy'n berthnasol i fusnes y Cyfarfod. Gellir rhoi hysbysiad ger bron gan y Cynigydd yn unig, ond bydd yn pallu os na fydd yn cael ei eilio yn y Cyfarfod.

17.5 Gall Cynnig gael ei wneud heb hysbysiad gan y Cadeirydd, a heb gael ei eilio ddod yn Gynnig ger bron yPwyllgor.

17.6 Bydd y Cynnig yn berthnasol i'r dyletswyddau a'r grymoedd a byddant o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor y bydd yn cael ei roi ger bron. Bydd unrhyw Gynnig sydd, ym marn y Cadeirydd neu y penderfynir felly trwy Gynnig, yn amherthnasol, yn cael ei drin fel un gwag.

17.7 Bydd pob Cynnig yn cael ei benderfynu gan fwyafrif sengl o aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol ac yn pleidleisio, ac eithrio ble nodir yn wahanol. Pleidleisir trwy godi dwylo, ar wahân i pan elwir am bleidlais gyfrinachol gan y mwyafrif llwyr o'r aelodau.

17.8 Pan fydd y pleidleisiau yn gydradd, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Nid oes rheidrwydd ar y Cadeirydd i weithredu'r bleidlais fwrw. Pan fydd y Cadeirydd yn gwrthod pleidleisio, bydd y Cynnig yn cael ei ddatgan fel un "heb ei dderbyn".

17.9 Bydd Cynnig a gymeradwyir yn ffurfiol gan Bwyllgor yn dod yn benderfyniad gweithredol y Pwyllgor hwnnw ar unwaith a bydd unrhyw welliant iddo yn atebol i Reol Sefydlog 21.

**18 Tynnu Cynigion yn ôl neu eu Newid**

18.1 Gall Cynnig gael ei dynnu'n ôl gan Gynigydd ac Eilydd y Cynnig ar yr amod fod y Pwyllgor wedi caniatáu hynny.

18.2 Gallai Cynigydd y Cynnig, gyda chydsyniad yr Eilydd, a chaniatâd y Pwyllgor, a fynegwyd heb drafodaeth, newid y Cynnig a gynigiwyd, neu yr hysbyswyd, os yw'r newid yn un a allai fod wedi cael ei wneud yn iawn fel Diwygiad.

**19 Diwygio Cynigion**

19.1 Ni fydd Diwygiad i Gynnig yn cael ei dderbyn na'i drafod os nad ydyw wedi cael ei gynnig gan aelod o'r Pwyllgor a'i eilio gan aelod arall o'r Pwyllgor. Gallai Diwygiad gael ei gynnig a'i eilio naill ai yn ysgrifenedig, neu ar lafar yn y Pwyllgor. Yn yr ail achos, gallai'r Cadeirydd ofyn iddo gael ei grynhoi yn ysgrifenedig cyn iddo gael ei dderbyn a'i drafod ymhellach.

19.2 Bwriad Diwygiad fydd naill ai i:-

19.2.1 hepgor geiriau;

19.2.2 hepgor geiriau a rhoi neu ychwanegu geiriau eraill;

19.2.3 rhoi neu ychwanegu geiriau;

19.2.4 neu gyfeirio pwnc trafodaeth yn ôl i Bwyllgor i'w ystyried neu ei ailystyried;

19.3 Ni fydd unrhyw welliant yn cael yr effaith o gyflwyno cynnig newydd i, neu nacáu, y Cynnig ger bron y Pwyllgor.

19.4 Bydd Diwygiad yn cael ei roi ger bron y Pwyllgor cyn y Cynnig gwreiddiol.

19.5 Os bydd Cynnig yn cael ei wrthod, y Cynnig gwreiddiol fydd y mater ger bron y Pwyllgor eto a gellir gwneud Gwelliannau pellach iddo.

19.6 Os bydd Diwygiad yn cael ei dderbyn, bydd y Cynnig wedi'i ddiwygio yn cymryd lle'r Cynnig gwreiddiol, ac yn dod yn Gynnig ger bron y Pwyllgor, y gellir gwneud unrhyw Welliannau pellach iddo. Bydd yn atebol i Reolau Sefydlog 17 ac 18.

19.7 Ni fydd ail Welliant neu Welliant pellach yn cael ei wneud ar Gynnig nes bydd y Pwyllgor wedi gwaredu'r Diwygiad a wnaed i ddechrau.

19.8 Gall Diwygiad gael ei dynnu'n ôl neu ei newid yn unol â'r drefn a nodir yn Rheol Sefydlog 18.

19.9 Os bydd Cynnig yn cael ei dynnu'n ôl, bydd unrhyw Welliant i'r Cynnig hwnnw yn pallu.

**20 Cynigion y gellir eu gwneud heb Hysbysiad**

Gallai'r Cynnig canlynol gael ei wneud heb rybudd:-

20.1 Penodi Cadeirydd i'r Cyfarfod ble gwneir y Cynnig.

20.2 Cynigion yn cyfeirio pwnc trafodaeth, neu faterion yn codi o'r drafodaeth honno, i Bwyllgor.

20.3 Cynigion i benodi Is-Bwyllgor, neu Aelodau ohono, a achoswyd gan eitemau a geir yn yr Agenda.

20.4 Cynigion i fabwysiadu adroddiadau ac argymhellion Pwyllgorau neu Swyddogion ac unrhyw Gynigion canlynol.

20.5 Cynnig fod hawl yn cael ei roi i dynnu cynnig yn ôl.

20.6 Diwygiadau i Gynigion.

20.7 Cynnig i ymestyn y terfyn amser ar gyfer areithiau.

20.8 Cynnig fod eitem o fusnes a nodir yn yr Agenda yn cael blaenoriaeth.

20.9 Cynnig i gynnal pleidlais gyfrinachol.

20.10 Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros dro [gweler Rheol Sefydlog 25].

20.11 Cynnig i Aelod a enwir o dan Reol Sefydlog "beidio â chael ei glywed ymhellach", neu "adael y Cyfarfod".

20.12 Cynnig i Gofnodion gofnodi materion penodol yn unol â Rheol Sefydlog 22.

20.13 Cynigion sy'n ymwneud â therfynu, gohirio ar ôl cychwyn, trefn busnes neu'r busnes nesaf.

20.14 Cynnig i'r Cyfarfod "fynd i Bwyllgor".

**21 Diddymu Penderfyniad Blaenorol**

21.1 Ni fydd unrhyw Gynnig i ddiddymu unrhyw benderfyniad a basiwyd o fewn y chwe mis yn cael ei roi ger bron Bwrdd y Llywodraethwyr neu'r Bwrdd Academaidd a'u Pwyllgorau; neu o fewn y tri mis blaenorol i Bwyllgorau eraill; ac ni fydd unrhyw Gynnig i'r un perwyl ag un sydd wedi cael ei negyddu o fewn yr un terfynau amser yn cael ei gynnig os na

fydd yr hysbysiad ohono a roddir o dan Reol Sefydlog 17 yn cynnwys enwau o leiaf nifer ddigonol o'r pwyllgor i ffurfio cworwm o'r Pwyllgor hwnnw.

21.2 Pan fydd y Pwyllgor wedi cael gwared ar Gynnig o'r fath, ni fydd yn agored i unrhyw aelod wneud Cynnig tebyg o fewn cyfnod pellach o chwe mis neu dri mis fel y bo'n briodol.

21.3 Ni fydd y Rheol Sefydlog yma yn berthnasol i Gynigion a wnaed yn dilyn Adroddiadau neu Argymhellion Is-Bwyllgor neu'r Swyddogion.

**22 Cofnodion Pwyllgorau**

22.1 Dyletswydd Clerc y Pwyllgor fydd paratoi Cofnodion neu Adroddiadau'r Pwyllgor hwnnw.

22.2 Ni fydd cofnod o Ddiwygiadau di-rym i Gynigion yn cael ei gynnwys yn y Cofnodion oni bai fod hyn yn cael ei bennu gan Gynnig.

22.3 Er mwyn chwalu amheuaeth, cyhoeddir y bydd cofnod o Gynigion di-rym yn cael eu cynnwys yn y Cofnodion.

22.4 Ni fydd unrhyw gofnod o bleidleisiau a fwrwyd o blaid neu yn erbyn Cynnig gan Aelod neu Aelodau yn cael eu cynnwys yn y Cofnodion oni bai fod hyn yn cael ei bennu gan Gynnig.

**23 Rheolau Trafod**

23.1 Wrth siarad, bydd Aelod yn annerch y Cadeirydd. Bydd yr araith hon yn cael ei chyfeirio i'r cwestiwn a'r drafodaeth neu i esboniad neu i gwestiwn ynglŷn â threfn. Ni ddylai unrhyw araith fod yn hwy na phum munud ac eithrio gyda chaniatâd y Pwyllgor dan Reol Sefydlog 20.7.

23.2 Bydd Aelod yn nodi dymuniad neu fwriad i siarad trwy godi llaw. Os bydd dau Aelod neu fwy yn nodi eu dymuniad yr un pryd, bydd y Cadeirydd yn galw ar un i siarad.

23.3 Wrth eilio Cynnig neu Ddiwygiad, gall Aelod gyhoeddi'r bwriad i gadw'r araith tan yn nes ymlaen yn y drafodaeth.

23.4 Ni chaniateir i Aelod sydd wedi siarad am unrhyw Gynnig siarad eto tra mae hyn yn bwnc y drafodaeth, ac eithrio i:-

23.4.1 Siarad unwaith am ddiwygiad a wnaed gan Aelod arall.

23.4.2 Os yw'r Cynnig wedi cael ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 19 ers i'r Aelod siarad ddiwethaf, i wneud diwygiad pellach.

23.4.3 Os oedd araith gyntaf yr Aelod yn ymwneud â diwygiad a wnaed gan Aelod arall, i siarad am y Cynnig ger bron y Pwyllgor pe cafodd y diwygiad y siaradwyd amdano ei basio neu beidio.

23.4.4 Wrth ymarfer yr hawl i ateb a geir yn Rheol Sefydlog 23.10.

23.4.5 Ynglŷn â phwynt o drefn.

23.4.6 Fel eglurhad personol.

23.5 Ni chaniateir i Aelod sydd wedi siarad am Gynnig yn flaenorol gyflwyno Diwygiad i'r Cynnig hwnnw. Unwaith i Ddiwygiad gael ei gynnig, fodd bynnag, mae hawl gan bob siaradwr blaenorol i siarad eto fel o dan 23.4.

23.6 Pan fo Cynnig yn cael ei drafod, ni fydd unrhyw Gynnig arall yn cael ei basio, ac eithrio ar gyfer y canlynol:-

23.6.1 I ddiwygio’r Cynnig.

23.6.2 I ohirio ystyriaeth y Cynnig

23.6.3 I ohirio’r Cyfarfod dros dro

23.6.4 I ohirio’r drafodaeth dros dro

23.6.5 I symud ymlaen i’r busnes nesaf

23.6.6 Er mwyn i’r cwestiwn gael ei roi yn ôl

23.6.7 Na fydd Aelod yn cael ei glywed ymhellach

23.6.8 Fod Aelod yn gadael Cyfarfod

23.6.9 Fod pwnc y drafodaeth yn cael ei gyfeirio, neu ei gyfeirio yn ôl, i Bwyllgor

23.6.10 I atal Rheolau Sefydlog

23.6.11 I herio dyfarniad y Cadeirydd o dan 23.9

23.7 Fod Aelod, ar ddiwedd araith gan Aelod arall, yn rhoi heb wneud unrhyw sylwadau unrhyw un o’r Cynigion gweithdrefnol a restrir yn Rheol Sefydlog 23.6 ger bron, ac wrth i hyn gael ei eilio bydd y Cadeirydd yn rhoi’r Cynnig i bleidlais heb drafodaeth bellach. Os bydd yn cael ei dderbyn, bydd y gweithrediad trefniadol, fel y bo’n briodol i’r penderfyniad, yn cael ei wneud.

23.8 Gall Aelod godi ar bwynt o drefn neu mewn esboniad personol a bydd ganddo hawl i gael ei glywed ar unwaith.

23.9 Bydd pwynt o drefn yn ymwneud yn unig â thorri honedig Rheol Sefydlog a bydd yr Aelod yn pennu’r Rheol Sefydlog, a’r ffordd y mae’n ymddangos i fod wedi’i thorri.

23.10 Bydd dyfarniad y Cadeirydd ar unrhyw gwestiwn o dan y Rheolau Sefydlog, neu ar unrhyw bwyntiau o drefn neu esboniadau, yn derfynol, os na fydd yn cael ei herio’n llwyddiannus gan Gynnig a wneir gan fwyafrif llethol.

23.11 Ac eithrio ar ôl penderfyniad llwyddiannus “fod y cwestiwn yn awr yn cael ei roi ger bron”, bydd gan Gynigydd Cynnig neu Ddiwygiad yr hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y Cynnig neu’r Diwygiad, yn syth cyn iddo fynd i bleidlais.

23.12 Ni fydd Aelod sy’n gweithredu’r hawl i ateb yn cyflwyno mater newydd.

23.13 Pa bryd bynnag y bydd cadeirydd y cyfarfod yn codi yn ystod y drafodaeth bydd Aelod sy’n siarad ar y pryd yn rhoi’r gorau i siarad a bydd y Pwyllgor yn bod yn dawel.

23.14 Er mwyn hwyluso trafodaeth ar Gynnig cymhleth, gall Aelod gynnig fod “y Cyfarfod yn mynd i Bwyllgor”. Os bydd Cynnig o’r fath yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 17, bydd y Cyfarfod yn “mynd i Bwyllgor” ar unwaith.

23.15 Pan fydd Cyfarfod “yn mynd i Bwyllgor”, bydd Rheol Sefydlog 23.4 yn cael ei hatal dros dro, ac ni fydd gan y Cyfarfod unrhyw rym i benderfynu ar Gynnig dan Reol Sefydlog 17.8.

23.16 Ar ddiwedd y drafodaeth, bydd y Cyfarfod yn datrys ei hun yn ffurfiol “y tu allan o Bwyllgor” ac yn dod yn atebol eto i Reolau Sefydlog.

23.17 Yna bydd cytundebau y daethpwyd iddynt yn anffurfiol tra “mewn Pwyllgor” yn cael eu rhoi yn ffurfiol i’r Cyfarfod gan y Cadeirydd ac os byddant yn cael eu pasio byddant yn dod yn Benderfyniadau ffurfiol y Pwyllgor.

**24 Cyfarfodydd a Ohirir ar ôl Cychwyn**

24.1 <u>Gohirio ar ôl Cychwyn yn sgil Diffyg Cworwm</u>

24.1.1 Yn amodol ar yr Offerynnau Llywodraethu, rhestrir y trefnau dros ohirio ar ôl cychwyn oherwydd absenoldeb cworwm yn Rheol Sefydlog 10.

24.2 <u>Achosion Eraill o Ohirio ar ôl Cychwyn</u>

24.2.1 Pan ohirir cyfarfod ar ôl cychwyn dros dro am gyfnod byr, er hwylustod, oherwydd ymddygiad afreolus, argyfwng neu achos arall, yn dilyn Cynnig dan Reol Sefydlog 23.6.3, nid oes unrhyw drefnau arbennig yn ofynnol pan fydd y cyfarfod yn ailddechrau. Ymdrinnir â’r busnes sy’n weddill fel petai’r cyfarfod wedi bod yn ddi-dor.

24.2.2 Pan ohirir cyfarfod ar ôl cychwyn i barhau ar ddiwrnod arall, bydd hysbysiad o o leiaf tridiau clir o alw’r cyfarfod a ohirir ar ôl cychwyn yn cael ei wneud. Yn y cyfarfod a ohirir ar ôl cychwyn, dim ond y busnes anorffenedig y galwyd y cyfarfod gwreiddiol ar ei gyfer fydd yn cael ei drafod.

24.2.3 Fel y barno’r Cadeirydd, pan na fydd materion brys i’w datrys, gellir cyfeirio’r busnes anorffenedig i Gyfarfod Cyffredin nesaf y Pwyllgor.

**25 Atal Rheolau Sefydlog**

25.1 Bydd Cynnig i atal Rheolau Sefydlog o dan Reol Sefydlog 20.10 yn datgan yn glir natur a brys y rheswm dros atal, nifer (neu niferoedd) y Rheol(au) Sefydlog a effeithir a’r cyfnod y dylai’r ataliad bara. Mae’n rhaid i Gynnig dros atal gael ei wneud gan Fwyafrif Llethol.

**26 Ymddygiad Afreolus**

26.1 Os, mewn unrhyw Gyfarfod, y bydd unrhyw Aelod o’r Pwyllgor yn anwybyddu dyfarniadau’r Cadeirydd yn gyson neu’n ymddwyn yn afreolaidd, neu’n amhriodol, neu’n dramgwyddus, neu’n rhwystro busnes y Pwyllgor yn fwriadol, bydd yn gymwys i Aelod wneud cynnig “na fydd yr aelod a enwir yn cael ei glywed mwyach” neu “fod yr Aelod a enwir yn gadael y Cyfarfod” a bydd y Cynnig, os y caiff ei eilio, yn cael ei roi a’i bennu heb drafodaeth.

**27 Atal Eisteddiad**

27.1 Os, ar ôl i Gynnig o dan Reol Sefydlog 26 gael ei dderbyn, y bydd y camymddwyn neu’r rhwystro yn parhau ac, ym marn y Cadeirydd, yn ei gwneud yn amhosibl i gwblhau’r busnes mewn modd priodol a threfnus, fe allai’r Cadeirydd, yn ogystal ag unrhyw bwerau eraill a roddir i’r swydd, roi, gohirio âr ôl cychwyn, neu atal eisteddiad y Pwyllgor yn ddigwestiwn am pa gyfnod bynnag a ystyrir yn hwylus.

**28 Buddiannau Aelodau Pwyllgorau mewn Cytundebau a Materion eraill**

28.1 Os oes gan unrhyw aelod o Bwyllgor arall unrhyw fuddiant ariannol, uniongyrchol neu anuniongrychol, mewn unrhyw Gytundeb neu Gytundeb arfaethedig neu fater arall sy'n ymwneud â thrafodion ariannol, bydd y buddiant hwnnw yn cael ei ddatgelu i'r Pwyllgor cyn gynted â'i bod yn ymarferol a bydd yr aelod yn tynnu'n ôl. (Gweler hefyd y Côd Ymddygiad, adran 8).

**29 Diprwyo Dyletswyddau a Phwerau a Swyddogaethau**

29.1 Os na ragamodir yn wahanol yn benodol, fe all Pwyllgor ddirprwyo i Swyddogion, Is-Bwyllgorau, neu bobl eraill, unrhyw ddyletswyddau, pwerau neu swyddogaethau y mae ei hun yn gymwys i'w cyflawni.

29.2 Bydd unrhyw weithred a ymgymerir ar ôl hynny gan y Swyddogion, Is-Bwyllgorau neu'r person a ddiprwywyd o fewn cyfyngiadau o'r fath yn cael ei ystyried fel gweithred y pwyllgor a ddiprwyodd y pwerau hynny.

**30 Cyfrifoldeb ar y Cyd**

30.1 Mae unrhyw benderfyniad a wneir gan Fwrdd y Llywodraethwyr (gan gynnwys unrhyw benderfyniad a wneir gan Bwyllgor neu fater a ddirprwyir iddo gan y Bwrdd) yn benderfyniad a wneir gan y Llywodraethwyr ar y cyd ac mae'n ddyletswydd ar bob Llywodraethwr unigol i lynu ato, boed ef/hi yn bresennol neu beidio yn y cyfarfod ble gwnaethwyd y penderfyniad.

30.2 Os bydd Llywodraethwyr yn anghytuno â phenderfyniad, eu dyletswydd cyntaf fydd trafod unrhyw anghytundeb ac, os bydd ef/hi yn gofyn am hynny, yn ei gofnodi.

30.3 Os bydd Llywodraethwr yn anghytuno'n chwyrn â phenderfyniad, dylent drafod y mater gyda'r Cadeirydd ac, os oes angen, godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Os nad oes cyfarfod cyffredin wedi'i drefnu, dylid cyfeirio at y Drefn ar gyfer galw cyfarfod arbennig. Fel arall fe allai'r Llywodraethwr dan sylw, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd, benderfynu ymddiswyddo oddi ar y Bwrdd.

**31 Lwfans Llywodraethwyr**

31.1 Mae'r Offeryn Llywodraethu yn gofalu am dalu lwfansau i aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr ac aelodau ei is-bwyllgorau. Cytunir ar unrhyw lwfansau a delir i aelodau'r Bwrdd gyda Chyllid y Wlad ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Arnodir awdurdodi costau'r Llywodraethwyr gan yr Is-Ganghellor/Prif Weithredwr.

**32 Dirprwy Glerc**

32.1 Pan fydd y Clerc yn methu â mynychu cyfarfod o'r Bwrdd neu is-bwyllgor o'r Bwrdd, bydd gofyn i'r Dirprwy Glerc fod yn bresennol. Cymeradwyir y Dirprwy Glerc gan y Cadeirydd ar argymhelliad y Clerc.

Lle nad yw'r Clerc yn medru osgoi peidio â bod yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd neu Bwyllgor y Bwrdd, bydd yn ofynnol i'r Dirprwy Glerc fod yn bresennol. Cymeradwyir y Dirprwy Glerc gan y Cadeirydd ar argymhelliad y Clerc.

**33 Rheolau Sefydlog - Adolygiad**

33.1 Dylai'r Rheolau Sefydlog gael eu hadolygu bob blwyddyn.

# Atodiadau

**Atodiad 1**

## ETHOL AELODAU STAFF BWRDD Y LLYWODRAETHWYR

## A ENWEBAI O'R BWRDD ACADEMAIDD AR FWRDD Y LLYWODRAETHWYR

### 1 Cymhwyster a Thymor y Swydd

1.1 Bydd yna un aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr sydd yn enwebai'r Bwrdd Academaidd, o blith ei aelodau sydd yn "athrawon" fel y diffinnir isod.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 2.8, diffinnir "Athro/Athrawes" fel aelod o Staff y Brifysgol, sy'n ymwneud fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth ym Mhrifysgol Wrecsam, ag addysgu myfyrwyr am fwy na 50% o'u hamser, ac yn arweinydd academaidd sy'n gysylltiedig â datblygu a hybu dysgu ac addysgu.

1.3 Gall aelodau o staff sy'n cwrdd â'r diffiniad uchod sydd yn absennol o Brifysgol Wrecsam ar secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy gael eu henwebu os ydynt yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Llywodraethwyr.

1.4 Bydd tymor swydd yr enwebai etholedig o'r Bwrdd Academaidd yn dod i ben pe bai'r person dan sylw yn rhoi'r gorau i gael ei gyflogi gan Brifysgol Wrecsam neu pe bai ei swydd yn newid yn sylweddol (e.e. i gategori staff arall megis Deiliad Uwch Swydd neu aelod o'r staff Gwasanaethau Proffesiynol).

1.5 Bydd tymor swydd enwebai y Bwrdd Academaidd yn para am bedair blynedd. Unwaith y bydd enwebai y Bwrdd Academaidd wedi cwblhau pedair blynedd yn eu swydd, byddant fel arfer yn rhoi'r gorau i fod yn aelod a bydd proses enwebu yn cael ei rhoi ar waith gan Glerc y Bwrdd Academaidd.

### 2 Y Drefn

2.1 Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Academaidd am enwebiadau a rhoddir gwybodaeth iddynt am gymhwyster a'r dyddiad cau gan Glerc y Bwrdd Academaidd.

2.2 Bydd Clerc y Bwrdd Academaidd, yn benodol, yn tynnu sylw'r aelodau at y ddogfen sy'n disgrifio rôl yr aelodau ac yn rhagnodi "na ddylai aelodau a enwebwyd gan etholaethau penodol weithredu fel pe baent wedi'u dirprwyo gan y grŵp y maent yn ei gynrychioli ac na ddylai unrhyw aelodau gael eu rhwymo, wrth siarad neu bleidleisio, gan orchmynion a roddwyd iddynt gan eraill."

2.3 Mae'n rhaid i enwebiadau gynnwys enwau'r enwebai, un cynigydd, un eilydd a hyd at chwech aelod arall o'r Bwrdd Academaidd sy'n cefnogi'r enwebiad.

Mae'n rhaid i enwebiadau gynnwys enwau'r enwebai, un cynigydd ac un eilydd.

2.4 Mae'n rhaid i gytundeb ffurfiol y person a enwebir gael ei gynnwys hefyd.

2.5 Dim ond unwaith y gall aelodau'r Bwrdd Academaidd gynnig, eilio a phleidleisio.

2.6 Cyflwynir enwebiadau i'r Swyddog Canlyniadau, sef Clerc y Bwrdd Academaidd erbyn y dyddiad a benodwyd a bydd unrhyw ffurflenni a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw yn annilys.

2.7 Pan fydd dim ond un enwebai, bydd y Clerc yn gofyn am CV yr enwebai ynghyd â datganiad byr yn dynodi'r sgiliau a'r arbenigedd y bydd yr ymgeisydd yn gallu eu cynnig i'r Bwrdd, ac yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant Bwrdd y Llywodraethwyr. Bydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn penderfynu a ddylent argymell yr enwebiad i Fwrdd y Llywodraethwyr ai peidio. Ble na chefnogir enwebiad, bydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn galw am enwebiadau pellach.

2.8 Pan fydd mwy nag un enwebai, trefnir etholiad gan y Swyddog Canlyniadau.

2.9 Cynhelir yr etholiad trwy bleidlais gudd a allai gynnwys defnyddio system bleidleisio electronig ddiogel. Ni chaniateir pleidleisio trwy bost electronig.

2.10 Clerc y Bwrdd Academaidd fydd y Swyddog Canlyniadau.

2.11 Mewn achosion ble mae staff yn absennol o Brifysgol Wrecsam oherwydd salwch, secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy, bydd trefniadau yn cael eu gwneud gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pleidlais drwy'r post. Dylai ceisiadau ar gyfer pleidlais drwy'r post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

2.12 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am y cyfrif a wneir ym mhresenoldeb person annibynnol a ddiffinnir fel rhywun o enw da nas cyflogir gan Brifysgol Wrecsam nac ychwaith wedi cofrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae'r enghreifftiau o bobl annibynnol y gellid gofyn iddynt weithredu fel tystion i'r cyfrif yn cynnwys clerigwyr neu arweinyddion ffydd eraill; Clerc corff llywodraethol mewn Coleg SAU neu AB arall.

2.13 Bydd nifer y papurau pleidleisio a'r nifer a ddychwelir ym mhob etholiad yn cael eu nodi er mwyn monitro cyfranogiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu ar y broses ethol yn ogystal ag ar nifer y pleidleisiau a gafodd pob ymgeisydd.

2.14 Bydd y papurau pleidleisio a/neu gofnod o bleidleisiau electronig diogel yn cael eu cadw mewn man diogel gan y Swyddog Canlyniadau am chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad.

2.15 Yn amodol ar y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn cymeradwyo adroddiad y Swyddog Canlyniadau ar etholiad fel un boddhaol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn aelod y Bwrdd Academaidd o Fwrdd y Llywodraethwyr. Ble bo'r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn mynegi unrhyw bryderon am y broses ethol, bydd y Pwyllgor yn penderfynu beth sydd angen ei wneud ac fe allai, os yn briodol, ofyn i'r etholiad gael ei gynnal eto.

## B AELOD CYFETHOLEDIG O FWRDD Y LLYWODRAETHWYR SY'N "ATHRO/ATHRAWES"

### 1 Cymhwyster a Thymor y Swydd

1.1 Yn unol â Rheol sefydlog 2.7, diffinnir "Athro/Athrawes" fel aelod o Staff y Brifysgol, sy'n ymwneud fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth ym Mhrifysgol Wrecsam, ag addysgu myfyrwyr am fwy na 50% o'u hamser, sy'n dal swydd Darlithydd, Uwch Ddarlithydd, Darlithydd Is-Ganghellor, Darllenydd neu Athro Coleg. Ble mae gan

Athrawon Coleg gytundebau Deiliaid Uwch Swydd, nid ydynt hwy yn cael eu cynnwys yn y diffiniad yma. Nid yw "athrawon" sydd yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd yn gymwys i sefyll fel ymgeiswyr ar gyfer "aelod athro/athrawes" cyfetholedig y Bwrdd, ond fe allant, ar yr adeg priodol, geisio enwebiad fel enwebai y Bwrdd Academaidd sydd yn "athro/athrawes".

1.2 Mae gan bob athro/athrawes, fel y diffinnir uchod, yr hawl i geisio enwebiad, i gynnig ac eilio enwebeion, ac i bleidleisio yn yr etholiad.

1.3 Gallai aelodau staff sy'n cwrdd â'r diffiniad uchod sydd yn absennol o Brifysgol Wrecsam ar secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy gael eu henwebu os ydynt yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Llywodraethwyr.

1.4 Bydd tymor swydd yr aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol a etholwyd yn dod i ben pe bai'r person dan sylw yn rhoi'r gorau i gael ei gyflogi gan Brifysgol Wrecsam neu pe bai ei swydd yn newid yn sylweddol (e.e. i gategori staff arall megis Deiliad Uwch Swydd neu aelod o staff academaidd).

1.5 Bydd tymor swydd enwebai yr aelod cyfetholedig yn para am bedair blynedd. Unwaith y bydd yr aelod cyfetholedig wedi cwblhau pedair blynedd yn ei swydd, bydd fel arfer yn rhoi'r gorau i fod yn aelod a bydd proses enwebu yn cael ei rhoi ar waith gan Glerc y Bwrdd. Gallai aelodau cyfetholedig sy'n athrawon geisio enwebiad ar gyfer ail gyfnod o bedair blynedd yn unol â thymor swydd aelodau annibynnol.

## 2 Y Drefn

2.1 Gofynnir i staff cymwys (h.y. "staff addysgu" fel y diffinnir uchod) am enwebiadau a rhoddir gwybodaeth iddynt am gymhwyster a dyddiad cau gan Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr.

2.2 Bydd y Clerc, yn benodol, yn tynnu sylw'r aelodau at y ddogfen sy'n disgrifio rôl yr aelodau ac yn rhagnodi "na ddylai aelodau a enwebwyd gan etholaethau penodol weithredu fel pe baent wedi'u dirprwyo gan y grŵp y maent yn ei gynrychioli ac na ddylai unrhyw aelodau gael eu rhwymo, wrth siarad neu bleidleisio, gan orchymynion a roddwyd iddynt gan eraill."

2.3 Mae'n rhaid i enwebiadau gynnwys enwau yr enwebai, y cynigydd a'r eilydd.

2.4 Mae'n rhaid i gytundeb ffurfiol y person a enwebir gael ei gynnwys hefyd.

2.5 Dim ond unwaith y gall aelodau'r Bwrdd Academaidd gynnig, eilio a phleidleisio.

2.6 Cyflwynir enwebiadau i'r Swyddog Canlyniadau, sef Clerc Bwrdd y Llywodraethwyr erbyn y dyddiad a benodwyd a bydd unrhyw ffurflenni a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw yn annilys.

2.7 Pan fydd dim ond un enwebai, bydd y Clerc yn gofyn am CV yr enwebai ynghyd â datganiad byr yn dynodi'r sgiliau a'r arbenigedd y bydd yr ymgeisydd yn gallu eu cynnig i'r Bwrdd, ac yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant Bwrdd y Llywodraethwyr. Bydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn penderfynu a ddylent argymell yr enwebiad i Fwrdd y Llywodraethwyr ai peidio. Ble na chefnogir enwebiad, bydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn galw am enwebiadau pellach.

2.8 Pan fydd mwy nag un enwebai, bydd etholiad yn cael ei drefnu gan y Swyddog Canlyniadau. Mewn amgylchiadau o’r fath, bydd pob enwebai yn cael y cyfle i ddarparu datganiad o ddim mwy na 100 gair i’r Clerc ei gymeradwyo ble byddant yn darparu cefndir bywgraffiadol byr a datganiad sy’n nodi pam eu bod yn dymuno bod yn aelod o’r Bwrdd (gan ddwyn i gof rôl yr aelodau fel y pennir yn y ddogfen y cyfeirir ati uchod). Dim ond y datganiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau a’u cymeradwyo gan y Clerc fydd yn cael eu dosbarthu. Ni ddylai unrhyw negeseuon eraill gael eu dosbarthu trwy ebost neu mewn diwyg ysgrifenedig arall gan gynnwys posteri, llythyrau neu femoranda gan enwebeion.

2.9 Cynhelir yr etholiad trwy bleidlais gudd a allai gynnwys defnyddio system bleidleisio electronig ddiogel. Ni chaniateir pleidleisio trwy bost electronig.

2.10 Clerc Bwrdd y Llywodraethwyr fydd y Swyddog Canlyniadau.

2.11 Mewn achosion ble mae staff yn absennol o Brifysgol Wrecsam oherwydd salwch, secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy, bydd trefniadau yn cael eu gwneud gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pleidlais drwy’r post. Dylai ceisiadau ar gyfer pleidlais drwy’r post gael eu cyflwyno i’r Swyddog Canlyniadau o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

2.12 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am y cyfrif a wneir ym mhresenoldeb person annibynnol a ddiffinnir fel rhywun o enw da nas cyflogir gan Brifysgol Wrecsam nac wedi cofrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae enghreifftiau o bobl annibynnol y gellid gofyn iddynt weithredu fel tystion i’r cyfrif yn cynnwys clerigwr neu arweinydd ffydd arall; Clerc corff llywodraethol mewn Coleg SAU neu AB arall.

2.13 Bydd nifer y papurau pleidleisio a’r nifer a ddychwelir ym mhob etholiad yn cael eu nodi er mwyn monitro cyfranogiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu adroddiad i’r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu ar y broses ethol yn ogystal ag ar nifer y pleidleisiau a gafodd pob ymgeisydd.

2.14 Bydd y papurau pleidleisio a/neu gofnod o bleidleisiau electronig diogel yn cael eu cadw mewn man diogel gan y Swyddog Canlyniadau am chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad.

2.15 Yn amodol ar y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn cymeradwyo adroddiad y Swyddog Canlyniadau ar etholiad fel un boddhaol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn aelod cyfetholedig o Fwrdd y Llywodraethwyr sy’n ‘athro/athrawes’. Ble bo’r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn mynegi unrhyw bryderon am y broses ethol, bydd y Pwyllgor yn penderfynu beth sydd angen ei wneud ac fe allai, os yn briodol, ofyn i’r etholiad gael ei gynnal eto.

## C <u>STAFF GWASANAETHAU PROFFESIYNOL – AELOD CYFETHOLEDIG O FWRDD Y LLYWODRAETHWYR</u>

### 1 Cymhwyster a Thymor y Swydd

1.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 2.9, diffinnir staff Gwasanaethau Proffesiynol fel Staff Prifysgol nas cyflogir ar gytundeb staff academaidd a/neu strwythur cyflog y staff academaidd.

1.2 Mae gan bob aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol, fel y diffinnir uchod, yr hawl i geisio enwebiad, i gynnig ac eilio enwebeion, ac i bleidleisio yn yr etholiad.

1.3 Gallai aelodau staff sy’n cwrdd â’r diffiniad uchod sydd yn absennol o Brifysgol Wrecsam ar secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy gael eu henwebu os ydynt yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Llywodraethwyr.

1.4 Bydd tymor swydd yr aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol cyfetholedig yn dod i ben pe bai’r person dan sylw yn rhoi’r gorau i gael ei gyflogi gan Brifysgol Wrecsam neu pe bai ei swydd yn newid yn sylweddol (e.e. i gategori staff arall megis Deiliad Uwch Swydd neu aelod o staff academaidd).

1.5 Bydd tymor swydd yr aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol cyfetholedig yn para am bedair blynedd. Unwaith y bydd yr aelod cyfetholedig wedi cwblhau pedair blynedd yn ei swydd, bydd fel arfer yn rhoi’r gorau i fod yn aelod a bydd proses enwebu yn cael ei rhoi ar waith gan Glerc y Bwrdd. Gallai aelodau o staff Gwasanaethau Proffesiynol cyfetholedig geisio enwebiad ar gyfer ail gyfnod o bedair blynedd yn unol â thymor swydd aelodau annibynnol.

## 2 Y Drefn

2.1 Gofynnir i staff cymwys (h.y. “staff Gwasanaethau Proffesiynol” fel y diffinnir uchod) am enwebiadau a rhoddir gwybodaeth iddynt am gymhwyster a dyddiad cau gan Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr.

2.2 Bydd y Clerc, yn benodol, yn tynnu sylw’r aelodau at y ddogfen sy’n disgrifio rôl yr aelodau ac yn rhagnodi “na ddylai aelodau a enwebwyd gan etholaethau penodol weithredu fel pe baent wedi’u dirprwyo gan y grŵp y maent yn ei gynrychioli ac na ddylai unrhyw aelodau gael eu rhwymo, wrth siarad neu bleidleisio, gan orchymynion a roddwyd iddynt gan eraill.”

2.3 Mae’n rhaid i enwebiadau gynnwys enwau’r enwebai, y cynigydd a’r eilydd.

2.4 Mae’n rhaid i gytundeb ffurfiol y person a enwebir gael ei gynnwys hefyd.

2.5 Dim ond unwaith y gall staff cymwys gynnig, eilio a phleidleisio.

2.6 Cyflwynir enwebiadau i’r Swyddog Canlyniadau, sef Clerc Bwrdd y Llywodraethwyr erbyn y dyddiad a benodwyd a bydd unrhyw ffurflenni a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw yn annilys.

2.7 Pan fydd dim ond un enwebai, bydd y Clerc yn gofyn am CV yr enwebai ynghyd â datganiad byr yn dynodi’r sgiliau a’r arbenigedd y bydd yr ymgeisydd yn gallu eu cynnig i’r Bwrdd, ac yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Enwebu a Llywodraethu Bwrdd y Llywodraethwyr. Bydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn penderfynu a ddylent argymell yr enwebiad i Fwrdd y Llywodraethwyr ai peidio. Ble na chefnogir enwebiad, bydd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn galw am enwebiadau pellach.

2.8 Pan fydd mwy nag un enwebai, bydd etholiad yn cael ei drefnu gan y Swyddog Canlyniadau. Mewn amgylchiadau o’r fath, bydd pob enwebai yn cael y cyfle i ddarparu datganiad o ddim mwy na 100 gair i’r Clerc ei gymeradwyo ble byddant yn darparu cefndir bywgraffiadol byr a datganiad sy’n nodi pam eu bod yn dymuno bod yn aelod o’r Bwrdd (gan ddwyn i gof rôl yr aelodau fel y pennir yn y ddogfen y cyfeirir ati uchod). Dim ond y datganiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau a’u cymeradwyo gan y Clerc fydd yn cael eu dosbarthu. Ni ddylai unrhyw negeseuon eraill gael eu dosbarthu trwy ebost neu mewn diwyg ysgrifenedig arall gan gynnwys posteri, llythyrau neu femoranda gan enwebeion.

2.9 Cynhelir yr etholiad trwy bleidlais gudd a allai gynnwys defnyddio system bleidleisio electronig ddiogel. Ni chaniateir pleidleisio trwy bost electronig.

2.10 Clerc Bwrdd y Llywodraethwyr fydd y Swyddog Canlyniadau.

2.11 Mewn achosion ble mae staff yn absennol o Brifysgol Wrecsam oherwydd salwch, secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy, bydd trefniadau yn cael eu gwneud gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pleidlais drwy'r post. Dylai ceisiadau ar gyfer pleidlais drwy'r post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

2.12 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am y cyfrif a wneir ym mhresenoldeb person annibynnol a ddiffinnir fel rhywun o enw da nas cyflogir gan Brifysgol Wrecsam nac wedi cofrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae enghreifftiau o bobl annibynnol y gellid gofyn iddynt weithredu fel tystion i'r cyfrif yn cynnwys clerigwr neu arweinydd ffydd arall; Clerc corff llywodraethol mewn Coleg SAU neu AB arall.

2.13 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu ar y broses ethol yn ogystal ag ar nifer y pleidleisiau a gafodd pob ymgeisydd.

2.14 Bydd y papurau pleidleisio a/neu gofnod o bleidleisiau electronig diogel yn cael eu cadw mewn man diogel gan y Swyddog Canlyniadau am chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad.

2.15 Yn amodol ar y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn cymeradwyo adroddiad y Swyddog Canlyniadau ar etholiad fel un boddhaol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn aelod 'gweithredol' cyfetholedig o Fwrdd y Llywodraethwyr. Ble bo'r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu yn mynegi unrhyw bryderon am y broses ethol, bydd y Pwyllgor yn penderfynu beth sydd angen ei wneud ac fe allai, os yn briodol, ofyn i'r etholiad gael ei gynnal eto.

**Atodiad 2**

## ETHOL AELODAU STAFF Y BWRDD ACADEMAIDD

## A AELODAU O'R STAFF ADDYSGU

### 1 Cymhwyster a Thymor y Swydd

1.1 Diffinnir "Staff Addysgu" fel aelod o Staff y Brifysgol, sy'n ymwneud fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth ym Mhrifysgol Wrecsam, ag addysgu myfyrwyr am fwy na 50% o'u hamser, ac yn dal swydd Darlithydd, Uwch Ddarlithydd, Darlithydd Is-Ganghellor, Darllenydd neu Athro Coleg. Ble bo gan Athrawon Coleg gytundebau Uwch Ddeiliaid Swydd, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad yma.

1.2 Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gywir yn y Cyfadrannau bydd dwy swydd staff addysgu ar gael ar gyfer pob Cyfadran a bydd y ddau ymgeisydd o bob Cyfadran gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau yn cael eu hethol, yn amodol ar ddarpariaethau eraill y drefn yma. Dim ond staff addysgu fel y rhai a ddiffinnir uchod sy'n gymwys i geisio enwebiad, i gynnig ac eilio enwebeion ac i bleidleisio dros ymgeiswyr i'r Sefydliad y maent yn perthyn iddo.

1.3 Gallai aelodau staff sy'n cwrdd â'r diffiniad uchod sydd yn absennol o Brifysgol Wrecsam ar secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy gael eu henwebu os ydynt yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel aelodau o'r Bwrdd Academaidd.

1.4 Bydd tymor swydd yr aelod etholedig sy'n athro/athrawes yn dod i ben pe bai'r person dan sylw yn rhoi'r gorau i gael ei gyflogi gan Brifysgol Wrecsam neu pe bai ei swydd yn newid yn sylweddol (e.e. i gategori staff arall megis Deiliaid Uwch Swydd neu aelod o'r staff Gwasanaethau Proffesiynol).

1.5 Bydd tymor swydd yr aelod sy'n athro/athrawes etholedig yn para am dair blynedd i ddechrau. Gyda chymeradwyaeth Cadeirydd of Bwrdd Academaidd, gallai'r cyfnod hwnnw gael ei ymestyn am ddim mwy na blwyddyn ychwanegol fel arfer, yn enwedig er mwyn galluogi graddoli aelodaeth newydd a galluogi cynnal parhad ac arbenigedd.

### 2 Y Drefn

2.1 Gofynnir i staff cymwys (h.y. "staff addysgu" fel y diffinnir uchod) am enwebiadau a rhoddir gwybodaeth iddynt am gymhwyster a dyddiad cau gan Glerc y Bwrdd Academaidd.

2.2 Bydd y Clerc yn tynnu sylw'r aelodau a'r enwebeion at y ddogfen "Côd Ymarfer Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Pwyllgorau" sy'n disgrifio rôl yr aelodau.

2.3 Mae'n rhaid i enwebiadau gynnwys enwau'r enwebai, y cynigydd a'r eilydd.

2.4 Mae'n rhaid cael cytundeb ffurfiol y person a enwebir.

2.5 Dim ond unwaith y gall aelodau'r Bwrdd Academaidd gynnig, eilio a phleidleisio.

2.6 Cyflwynir enwebiadau i'r Swyddog Canlyniadau, sef Clerc y Bwrdd Academaidd erbyn y dyddiad a benodwyd a bydd unrhyw ffurflenni a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw yn annilys.

2.7 Pan fydd dim ond un enwebai, bydd y Clerc yn gofyn am CV yr enwebai ynghyd â datganiad byr yn dynodi'r sgiliau a'r arbenigedd y bydd yr ymgeisydd yn gallu eu cynnig i'r Bwrdd, ac yn cael eu cyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd Academaidd a fydd yn penderfynu a ddylent argymell yr enwebiad i'r Bwrdd Academaidd ai peidio. Ble na chefnogir enwebiad, bydd Cadeirydd y Bwrdd Academaidd yn galw am enwebiadau pellach.

2.8 Pan fydd mwy nag un enwebai, bydd etholiad yn cael ei drefnu gan y Swyddog Canlyniadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd pob enwebai yn cael y cyfle i ddarparu datganiad o ddim mwy na 100 gair i'r Clerc ei gymeradwyo ble byddant yn darparu cefndir bywgraffiadol byr a datganiad sy'n nodi pam eu bod yn dymuno bod yn aelod o'r Bwrdd (gan ddwyn i gof rôl yr aelodau fel y pennir yn y ddogfen y cyfeirir ati uchod). Dim ond y datganiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau a'u cymeradwyo gan y Clerc fydd yn cael eu dosbarthu. Ni ddylai unrhyw negeseuon eraill gael eu dosbarthu trwy ebost neu mewn diwyg ysgrifenedig arall gan gynnwys posteri, llythyrau neu femoranda gan enwebeion.

2.9 Ble bydd yna sawl swydd wag ac enwebeion annigonol i lenwi'r holl swyddi gwag, awdurdodir y Cadeirydd, fel y gwêl yn ddoeth, i estyn y dyddiad a benodwyd ar gyfer derbyn enwebiadau hyd nes y bydd digon o enwebiadau wedi cael eu derbyn. Rhoddir gwybod am raddfeydd amser estynedig yn ffurfiol trwy ddull electronig.

2.10 Cynhelir yr etholiad trwy bleidlais gudd a allai gynnwys defnyddio system bleidleisio electronig ddiogel. Ni chaniateir pleidleisio trwy bost electronig.

2.11 Clerc y Bwrdd Academaidd fydd y Swyddog Canlyniadau.

2.12 Mewn achosion ble mae staff yn absennol o Brifysgol Wrecsam oherwydd salwch, secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy, bydd trefniadau yn cael eu gwneud gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pleidlais drwy'r post. Dylai ceisiadau ar gyfer pleidlais drwy'r post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

2.13 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am y cyfrif a wneir ym mhresenoldeb person annibynnol a ddiffinnir fel rhywun o enw da nas cyflogir gan Brifysgol Wrecsam nac wedi cofrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae enghreifftiau o bobl annibynnol y gellid gofyn iddynt weithredu fel tystion i'r cyfrif yn cynnwys clerigwyr neu arweinyddion ffydd eraill; Clerc corff llywodraethol mewn Coleg SAU neu AB arall.

2.14 Bydd nifer y papurau pleidleisio a'r nifer a ddychwelir ym mhob etholiad yn cael eu nodi er mwyn monitro cyfranogiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu ar y broses ethol yn ogystal ag ar nifer y pleidleisiau a gafodd pob ymgeisydd.

2.15 Bydd y papurau pleidleisio a/neu gofnod o bleidleisiau electronig diogel yn cael eu cadw mewn man diogel gan y Swyddog Canlyniadau am chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad.

2.16 Yn amodol ar y Bwrdd Academaidd yn cymeradwyo adroddiad y Swyddog Canlyniadau ar etholiad fel un boddhaol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn aelod "staff addysgu" o'r Bwrdd Academaidd. Ble bo'r Bwrdd Academaidd yn mynegi unrhyw bryderon am y broses ethol, bydd y Bwrdd yn penderfynu beth sydd angen ei wneud ac fe allai, os yn briodol, ofyn i'r etholiad gael ei gynnal eto.

## B AELODAU O’R STAFF GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

### 1 Cymhwyster a Thymor y Swydd

1.1 Diffinnir “staff Gwasanaethau Proffesiynol” fel Staff Prifysgol, nad ydynt yn cael eu cyflogi ar gytundeb staff academaidd a/neu strwythur cyflog y staff academaidd.

1.2 Bydd hawl gan bob staff Gwasanaethau Proffesiynol, fel y diffinnir uchod, geisio enwebiad, i gynnig ac eilio enwebeion, a phleidleisio yn yr etholiad.

1.3 Gallai aelodau staff sy’n cwrdd â’r diffiniad uchod sydd yn absennol o Brifysgol Wrecsam ar secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy gael eu henwebu os ydynt yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel aelodau o’r Bwrdd Academaidd.

1.4 Bydd tymor swydd yr aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol a etholwyd yn dod i ben pe bai’r person dan sylw yn rhoi’r gorau i gael ei gyflogi gan Brifysgol Wrecsam neu pe bai ei swydd yn newid yn sylweddol (e.e. i gategori staff arall megis Deiliad Uwch Swydd neu aelod o staff academaidd).

1.5 Bydd tymor swydd yr aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol a etholwyd yn para am dair blynedd i ddechrau. Gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y Bwrdd Academaidd, gallai’r cyfnod hwnnw gael ei ymestyn am ddim mwy na blwyddyn bellach fel arfer, yn enwedig er mwyn caniatáu graddoli aelodaeth newydd a chaniatáu cynnal parhad ac arbenigedd.

### 2 Y Drefn

2.1 Gofynnir i staff cymwys (h.y. “staff Gwasanaethau Proffesiynol fel y diffinnir uchod) am enwebiadau a rhoddir gwybodaeth iddynt am gymhwyster a’r dyddiad cau gan Glerc y Bwrdd Academaidd.

2.2 Bydd y Clerc, yn benodol, yn tynnu sylw aelodau ac enwebeion at y ddogfen “Côd Ymarfer ar gyfer Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Pwyllgorau” sy’n disgrifio rôl aelodau.

2.3 Mae’n rhaid i enwebiadau gynnwys enwau’r enwebai, y cynigydd a’r eilydd.

2.4 Mae’n rhaid i gytundeb ffurfiol y person a enwebir gael ei gynnwys hefyd.

2.5 Gall staff cymwys gynnig, eilio a phleidleisio unwaith yn unig.

2.6 Mae’n rhaid i enwebiadau gael eu cyflwyno i’r Swyddog Canlyniadau sef Clerc y Bwrdd Academaidd erbyn y dyddiad a benodwyd a bydd unrhyw ffurflenni a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw yn annilys.

2.7 Ble mai dim ond un enwebai sydd yna, bydd y Clerc yn gofyn am CV yr enwebai ynghyd â datganiad byr yn dynodi’r sgiliau a’r arbenigedd y bydd yr ymgeisydd yn gallu eu cynnig i’r Bwrdd, ac yn cael eu cyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd Academaidd a fydd yn penderfynu a ddylent argymell yr enwebiad i’r Bwrdd Academaidd ai peidio. Ble na chefnogir enwebiad, bydd Cadeirydd y Bwrdd Academaidd yn gofyn am alwad pellach am enwebiadau.

2.8 Pan fydd dim ond un enwebai, bydd etholiad yn cael ei drefnu gan y Swyddog Canlyniadau. Mewn amgylchiadau o’r fath, bydd pob enwebai yn cael y cyfle i ddarparu datganiad o ddim mwy na 100 gair i’r Clerc ei gymeradwyo ble byddant yn darparu cefndir bywgraffiadol byr a datganiad sy’n nodi pam eu bod yn dymuno bod

yn aelod o'r Bwrdd (gan ddwyn i gof rôl yr aelodau fel y pennir yn y ddogfen y cyfeirir ati uchod). Dim ond y datganiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau a'u cymeradwyo gan y Clerc fydd yn cael eu dosbarthu. Ni ddylai unrhyw negeseuon eraill gael eu dosbarthu trwy ebost neu mewn diwyg ysgrifenedig arall gan gynnwys posteri, llythyrau neu femoranda gan enwebeion.

2.9 Cynhelir yr etholiad trwy bleidlais gudd a allai gynnwys defnyddio system bleidleisio electronig diogel. Ni chaniateir pleidleisio trwy bost electronig.

2.10 Clerc y Bwrdd Academaidd fydd y Swyddog Canlyniadau.

2.11 Mewn achosion ble mae staff yn absennol o Brifysgol Wrecsam oherwydd salwch, secondiad neu wyliau estynedig o chwe mis neu fwy, bydd trefniadau yn cael eu gwneud gan y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pleidlais drwy'r post. Dylai ceisiadau ar gyfer pleidlais drwy'r post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

2.12 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am y cyfrif a wneir ym mhresenoldeb person annibynnol a ddiffinnir fel rhywun o enw da nas cyflogir gan Brifysgol Wrecsam nac wedi cofrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae enghreifftiau o bobl annibynnol y gellid gofyn iddynt weithredu fel tystion i'r cyfrif yn cynnwys clerigwr neu arweinydd ffydd arall; Clerc corff llywodraethol mewn Coleg SAU neu AB arall.

2.13 Bydd nifer y papurau pleidleisio a'r nifer a ddychwelir ym mhob etholiad yn cael eu nodi er mwyn monitro cyfranogiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu ar y broses ethol yn ogystal ag ar nifer y pleidleisiau a gafodd pob ymgeisydd.

2.14 Bydd y papurau pleidleisio a/neu gofnod o bleidleisiau electronig diogel yn cael eu cadw mewn man diogel gan y Swyddog Canlyniadau am chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad.

2.15 Yn amodol ar y Bwrdd Academaidd yn cymeradwyo adroddiad y Swyddog Canlyniadau ar etholiad fel un boddhaol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn aelod "staff Gwasanaethau Proffesiynol" o'r Bwrdd Academaidd. Ble bo'r Bwrdd Academaiddyn mynegi unrhyw bryderon am y broses ethol, bydd y Pwyllgor yn penderfynu beth sydd angen ei wneud ac fe allai, os yn briodol, ofyn i'r etholiad gael ei gynnal eto.

**Adolygiad o'r trefnau ethol hyn**

| Dyddiad | Pwyllgor a rhif cofnod | Dyddiad y Cymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr |
|---|---|---|
| *Mai 2006* | *CaDS (Cofnod 05.06)*<br>*Pwyllgor Enwebu (cofnod 05.12.01)* | *Gorffennaf 2006 (cofnod 05 111.04)* |
| *Mehefin 2006* | *CaDS (cofnod 05.119)* | |
| *Medi 2006* | *CaDS (cofnod 06.04.01)* | *Hydref 2006 (cofnod 06.20.06)* |
| *Mehefin 2007* | *CaDS (cofnod 06.58)*<br>*Pwyllgor Enwebu Mehefin 2007 (cofnod 06.14)* | *Gorffennaf 2007 (cofnod 06.99.01)* |
| *Mehefin 2010* | *CaDS (cofnod 09.82)*<br>*Pwyllgor Enwebu (cofnod 09.23)* | *Gorffennaf 2010 (cofnod 09.110.02)* |
| *Mehefin 2011* | *CaDS (cofnod 10.86)* | *Gorffennaf 2011 (cofnod 10.105.02)* |
| *Mehefin 2016* | *CaDS (cofnod 10.86)* | *Gorffennaf 2016 (cofnod 15.96.02)* |
| *Mehefin 2018* | *Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu (cofnod 17.36)* | *Gorffennaf 2018 (cofnod 17.112.05)* |
| *Mehefin 2019* | *Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu (cofnod 18.34.06)* | *Gorffennaf 2019 (cofnod 18.118.03)* |
| *Mehefin 2024* | *Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu (cofnod 23.17)* | *Gorffennaf 2024 (cofnod 23.134)* |